

Glas

Bwletin misol

Llên
natur
Cymdeithas Edward Llwyd

Rhif 202

Rhagfyr 2024

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



 **Martin Jones**
Martin Jones
PHOTOGRAPHER

-Cudyll Coch-
Mis Awst 2024
Cwm Hafod Oer
Tal-y-Llyn

Cyhoeddir **Glas** gan Gymdeithas Edward Llwyd

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

Cysylltwch â ni trwy bwletinglas.llennatur@gmail.com



BLITH



Fum i'n pendronni llawer am y term **DEGWM BLITH** mewn cofnodion o 1820au. Ddim mwyach - treth yr eglwys ar gynhyrchion y llaethdy ('dairy products') ydi ystyr y term.

Golygydd

BLITH Ar lafar, 'blith' 'llaethog', 'Buwch flith o'r sort ore', Cymru xlv. 148 (sir Ddinb.); 'buwch flith', GTN 78. Ar lafar, 'blith' 'buwch laethog', LILIM 90; 'Blith' 'Often used as the equivalent of enllyn ... *Not at all restricted to milk.* "Popeth sy'n dŵad o'wrth y fiwch"', GDD 34; 'Blith' 'butter, cheese', "Sta ni ddim cwmint o flith a'n iwso' 'we haven't so much butter and cheese as usual', TGG (1907-8) 60 (de-orllewin sir Gaerf.). Ydi'r gair BLITH yn gyfarwydd i chi? Cofiwch nodi ble.

Grŵp Iaith

Dyma Geiriadur Prifysgol Cymru: "Llaethog, yn rhoddi llaeth (am fuwch, &c.), llawn llaeth, cyflo (am fuwch), cyfoen (am ddafad), torrog, beichiog; ffrwythlon, cynhyrchiol, maethlon; hefyd yn ffig.: *milch, lactating (of cow, &c.), full of milk, in calf (of cow), in lamb (of sheep), pregnant; fruitful, productive, nourishing; also fig.*"

Dafydd Morris

Efallai mai eitem (ii) isod oedd y Degwm blith. Deallaf fod talu gydag arian yn lle cynnyrch wedi dod yn gyffredin erbyn hynny hyd yn oed cyn y "Tithe Commutation" yn 1836. "In theory, tithes were payable on (i) all things actually arising from the ground and subject to annual increase - grain, wood, vegetables etc.; (ii) all things nourished by the ground - the young of cattle, sheep etc., and animal produce such as milk, eggs and wool; and (iii) the produce of man's labour, particularly the profits from mills and fishing. Such tithes were termed respectively predial, mixed and personal tithes."

Jackie Wilmington

Mae'r cofnod hwn yn bendant yn dangos taliad mewn cynnyrch:

21/6/1820 Lle: Fron Olau, Penmorfa Ffynhonnell: Dyddiadur Owen Edwards, Fron Olau, Penmorfa Dydd Mercher Diwrnod teg braf. Yn cneifio. Y Degymwr yn codi'r Degwm yn cael naw o Wyn... [Glas biau'r italeiddio]

...ond mae hwn yn awgrymu taliadau arian:

3/8/1820 Lle: Penmorfa, Gwynedd Ffynhonnell: Dyddiadur Owen Edwards, Fron Olau, Penmorfa Dydd iau. Diwrnod lled niwlog ac yn bwrw gwlaw lled drwm. Mab Will Dafydd James yma y boreu cyn i ni godi yn ymofyn hynu o arian oedd yn dwad iddo oddiwrth y Degwm blith yn gofyn am Arian Pasg minau yn dweyd na thalwn monun, fyntau, yn dweyd y rhoi o nhw--i mi minau yn dweyd nad oedd arnai'i eisiau i neb eu rhoi i mi, nathalswn i erioed monunt ac na thalwn monunt chwaith ac ar hynnu y fo yn mynd i ffwrdd.

...a hwn yn dangos taliadau ariannol?:

11/6/1821 Lle: Fron Olau, Penmorfa Ffynhonnell: Dyddiadur Owen Edwards, Fron Olau, Penmorfa ■ Yn gosod y Degwm blith yn Nhy Arthur Hughes Penmorfa, Robt. Sion Hendrahowel yn mynd yno i dalu am y Degwm ŷd.

Golygydd

Mae 'mwthyn ger yr afon,
Mae gen i wartheg blithion,
Mae gen i fferm ar lannau Taf,
O tyred ataf, Wenfron.

Rex Caprorum

Mae gen i dŷ cysurus,
A melin newydd sbon,
A deg o wartheg blithion,
Yn pori ar y fron.
Weli di, weli di Mari fach,
Weli di Mari annwyl.

A finnau'n meddwl mai 'brithion' oedd rhei'na tan rwan!!! Ac wrth gwrs, y ddôl ger yr afon yw'r borfa orau mwyaf cynhyrchiol i'r gwartheg blithion. DB

Dad yn ei ddefnyddio yn ardal Parc, y Bala. Os dwi'n iawn, armael oedd y llaeth cynta (colostrum) a blithion [ansoddair yn ôl GPC- testyn erthygl arall..., gweler: irlaeth (beistings)] oedd y prif laeth.

Teleri Llwyd Roberts

Hen lyfr cownt fy niweddar fodryb (Siop Llangybi) yn nodi 'hadau blithdod' ar gyfrif cwsmer. Wedi methu darganfod beth oeddau nhw... Rywun efo rhyw syniad??

Nesta Wynne



armel¹, armael

[< Clt *ar(i)-uss-melg-, o'r gwr. IE. *melg- (< *amelg-) 'godro', cf. blith, Gwydd. melg 'llaeth', H. S. meolc (> S. milk)]

eg.

Yr ail laeth wrth odro, llaeth melyn tew, yr ailodro, hefyd yn ffig.:

the second milk, also fig.

17g. Huw Morus: EC i. 84, Buwch Beuno, bo iach beunydd, / Blas mêl yw 'r armel a rydd [i ofyn cerwyn ddarlau].


1793 P. Armael, s. m. ... The second milk.

1851 Addysg Chambers i. 666, gofaler am rodri iddynt [llo] ddigon o laeth, yn gynnes oddiwrth y fuwch, a bydded hwnnw y peth olaf a dynnir o'r fuwch, ac a elwir yr armael.

Ar lafar, 'armal', WYBD 21; Geir Geg 57 (y Gogledd a sir Drefn.).

...a dyma colostrum S. yn GyrA.
Tybed oes yna ddrysych yma rhwng BLITH a BRITH?

Mwy am enwau lleoedd:



Prif Enw	Lleolydd	Sir	Ffurf	Dyddiad	Byrfa Ffynh
ARGOED BLITH	PENDERYN	Brecknockshire	Tir Argoed blyth	1630	TRED
ARGOED BLITH	PENDERYN	Brecknockshire	Tir Argoed blith	1644	TRED
ARGOED BLITH	PENDERYN	Brecknockshire	Tir Argoed blith	1644	TRED
CWM BLITHUS	LLANFIHANGEL NANT MELAN	Radnorshire			
DEGWM BLITH			degwm blithe 'tithe of milk'	1583	EDWI
DÔL Y BLITHIE	DUTTON	Denbighshire	dole y blithie (Ruabon)	1620	AC
DÔL Y BLITHIE	DUTTON	Denbighshire			AC
DÔL Y BLITHIE	DUTTON	Denbighshire	Dole y bleidie	1619	TREV ROPE
DÔL Y BLITHIE	DUTTON	Denbighshire	Dole y Bleiddie	1657	WYNI
DÔLL Y BLITHIE	DUTTON DIFFAITH	Denbighshire	Dôl y Blithie		AC
DÔLL Y BLITHIE	DUTTON DIFFAITH	Denbighshire	dole y blithie (Ruabon)	1620	AC
DÔLL Y BLITHIE	DUTTON DIFFAITH	Denbighshire	Dole y bleidie	1619	TREV ROPE
MOEL Y BLITH GWM	MEIRIONYDD	Meironeth			

Enwau *blith* yng Nghronfa Enwau Lleoedd Melville Richards



Derbyn Glas




Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Cysylltwch gyda ni:
bwletinglas.llennatur@gmail.com

Glas

Hoel claddu brithyll neu sewin



Hoel claddu (bwrw eu grawn) **brithyll neu sewin ym Mhenllyn** ^(Llanberis) **heddiw - eithaf cynnar** (27 Hydref). **Mae'r iâr wedi troi'r graean efo'i chorff a'i chynffon cyn claddu'r wyau - yn gadael y marciau mwy golau eu lliw ar wely'r llyn. Bydd dwsinau o farciau tebyg dros yr wythnosau nesaf.** Robin Parry

Welish i, ychydig flynyddoedd yn ôl, sewin (roeddwn i'n meddwl) reit fawr yn gwneud yr ystum 'troi' 'dach chi'n son amdano, yng ngheg yr afon Llyfni, lathenni yn unig o'r môr. Ydi sewin yn claddu yn is i lawr afonydd nag eogiad tybed? Ynteu oes yna resymau eraill i wneud yr ystum troi? Be ddoth gynta i'n meddwl oedd mai ceisio crafu llau oddiar ei groen oedd hi. **Duncan Brown**

Bu astudiaeth bwysig rhyw ddeng mlynedd yn ôl (*Celtic Seatrout Project*) ac un o'r darganfyddiadau oedd bod sewin yn aml yn defnyddio'r darnau agosaf at y môr ac yn arbennig llednentydd mân yn isel yn y dalgylch i gladdu. Wedi dweud hyn, mae sewin wedi eu dal ar hyd y Seiont ac yn Llyn Padarn dros y blynyddoedd. Mae dyffrynoedd rhewlifol rhywfaint yn gaeth - mae'n rhaid claddu yn y brif afon, gan bod mynediad i rai o'r nentydd yn amhosib oherwydd daearyddiaeth y tir (i'w gymharu â dalgylchoedd gwastad debycach i rai o'r afonydd yn Ne Cymru). Mae'r ystym troi yn drawiadol iawn - tybiaf i ei fod yn denu ceiliogod hefyd. Mae'r iâr (brithyll) yn troi ar ei hochr a ceiliog mawr yn ymwthio fewn yn syth.


Gorsaf Driongli Padog

Heddiw mewn hanes 15 Tachwedd 1955

15/11/1955 Lle: Padoc, Ysbyty Ifan Ffynhonnell: Dyddiaduron D.O. Jones. Padoc, Ysbyty Ifan. Nodiadau: Mynd i dop Garnedd Lwyd i weld yr Ordnance Survey Triangulation Survey Station. Hel y defaid a'i troi i'r ffridd. Troi yr wyn o Cae Bont. Braff, awyrlas, ias eira.

Mae'n siwr bod DO a phawb arall ar y pryd yn grediniol bod technoleg diweddaraf yr Orsaf Driongli yn arloesol dros ben ac yn mynd i barhau am genedlaethau. Saith deg mlynedd ymlaen a thechnoleg lloerennau wedi eu goddiweddyd - bellach maen nhw'n henebion i'w cofio!

Tybed ai'r un lle ydy Rhiw Lwyd? Mae yno biler triongli ac mae'n agos iawn at Padog. Iwan Williams



Rhiw Lwyd sydd ar y map ond Garnedd Lwyd yw'r enw ar y lle cyn ganddom ni fel teulu ers cenedlaethau maith. Mae'r olygfa oddi yma ar dywydd braf yn drawiadol dros ben. Dyma'r pwynt agosaf i'r gadwyn Eryri i weld y mynyddoedd i gyd.



John Owen Jones

Mae 'na olwg 'cenhedlaeth cyntaf' y pileri ar hon!
Golygydd



Llun: Gwawr A. Jones

Y chopine... cyn oes y welingtons



Ffeindio hwn heddiw tra'n codi wal yn swydd Efrog. Ddeudodd rywun bod hwn wedi ei rifetio yn sownd i clogs merched er mwyn codi gwaelod eu ffrocia crand o'r glaswellt i stopio nhw rhag mynd yn fudur. Yn fy marn i, mwy tebygol ei fod ar waelod y gloesen er mwyn cael mwy o 'grip' tra'n gweithio yn y pridd. Oes na rhywun yn gwybod be oedd y syniad hwn? Ffendiais un arall rhai blynyddoedd yn ôl.

Richard Paul



Y Chopine - Fersiwn posh Shan Ashton : Chopine yn **Wikipedia** wedi cynnig **hyn**. Awgrym mai rhagflaenydd y *welington* oedd hwn i ddechrau ac yna yn cael ei barchuso i fod yn ragflaenydd esgidiau sodlau uchel... ddim y tro cyntaf i rhywbeth symud i fyny (neu i lawr) y grisiau cymdeithasol. Cyn oes y *welingtons* roedd traed gwlyb yr un mor anifyr ag y maen nhw heddiw. Mewn oes pan oedd merched yn gorfod gwisgo sgertiau llaes i gydymffurfio a 'gwerthoedd' eu hoed (dim dangos coesau!), a oedd yna rhyw system tebyg i ddynion? Beth oedd yn nadu merched rhag gwisgo par o drwsus?

Blas y cynfyd

Yn dydy hwn yn hollol hyfryd? O'r oes a fu...

Haf Meredydd

A 33,000 years old small carving of a bird found in the Hohle Fels cave in Germany in 2002. Sculpted in mammoth ivory, it's the earliest known representation of a bird. Blaubeuren Prehistory Museum, Baden-Württemberg, Germany.

Fel cynhyrchion celf eraill o'r cynfyd mae yna bwyslais ar anifeiliaid yr helfa ac weithiau y weithred o hela. Mae'n werth ei nodi yn yr achosion hyn bod yr anifeiliaid wedi eu delweddu mewn modd soffistigedig fyddai'n destun edmygedd i unrhyw artist heddiw, ond mae'r helwyr eu hunain wedi eu paentio i fod fawr 'gwell' na 'dynion pric'. Yn achos y paentiadau **ar waliau ogofâu** (Lascaux, Altimira) cawsant eu paentio yn aml yn cilfachau mwyaf cyfyng a diarffordd yr ogof, sy'n awgrymu pwrpas defodaidd i reoli'r helfa trwy'r 'uwch-naturiol', yn hytrach na phwrpas aesthetig i'w werthfawrogi gan eraill, fel rydyn ni yn ei ddeall heddiw. Nid 'artist' a'u paentiodd ond rhyw fath o Shaman. Ynteu ydy'r ddau bwrpas a'r ddwy swyddogaeth yn agosach nag ydyn ni'n hoffi meddwl?! Gwerth nodi mai dangos hwyaden fwyadwy efallai mae'r cerflun bach hwn.

DB

Mae Chernobyl yn cadw Lascaux yn fyw!

Lle mae'r Fflogit yn methu...



Gweld tameidiau weithiau o Flog It ar y BBC - ond tynnodd yr eitem yma fy sylw: asgwrn coes wedi ei addasu i... beth? Canu cloch? (Doedd gan y rhaglen ddim cynnig!)

■ Asgwrn ffemwr oedd o dwi meddwl o Tibet. Selwyn Thomas

■ Barn milfeddogol: "Rwy'n meddwl mai 'distal femur' (morddwyd distal) sydd yna - h.y. yr asgwrn uwchben y penglin." Jackie Wilmington



Wicimedia



Alexandra David-Néel in 1933 Tibet with a Kangling instrument at her waist **Wikimedia**

Gyda llaw, ffemwr dynol yw'r **kangling**




Dyma achubiaeth gan Cymuned Llên Natur: Kangling. Ffliwt o Tibet.

Elfyn Lewis

Two shin-bone trumpets and skull cup from a Tibetan banner representing attributes of **Palden Lhamo** (Wikimedia)

Eira 19 Tachwedd 2024



Y Foel Goch yn Llangwm
yn Foel Wen heddiw.
Arferai pobl ddweud fod
eira cynnar yn y gaeaf
yn erthylu'r gaeaf. Ydi canol
Tachwedd yn gynnar?
Amser a ddengys beryg. TLIR



Traeth Llandanwg a
mynyddoedd Eryri hefo eira
- 15.30pm HM



Yr eira'n is ar yr Wyddfa
a'i chriw heddiw.
Dal fawr o drwch ond
yn teimlo'n oer! NW




"Gwas yr Eira". Machlud
haul a niwl dros Llanarmon.
Llanarmon foggy sunset.

MR



Dim llawer o eira yma, ond
yn oer iawn a dwy dewr
yn mentro i'r môr.
Llanfairfechan EE-B



Llanfor

D d'A

Rheoli'r Das : Rhan I

Dyma ddiddorol. Mae'n f'atgoffa o nofel Thomas Hardy a addaswyd i ffilm, sef tasau gwair Bathsheba Everdene yn Far From The Madding Crowd pan mae'r Bugail Gabriel yn ceisio achub y teisi yn y storm.

Anita Myfanwy



Y 'To'

Sylwch ar do'r das. Mae'n debyg mai brwyn oedd gnweithuriad hwnnw wedi ei osod at i lawr i hel y dŵr i ffwrdd (fel 'thatch') a'i raffu.



Mae'r cofnodion canlynol yn dangos gwerth brwyn i wneud to tas:

19/2/1820 ■ Dydd Sadwrn Diwrnod teg wedi rhewi'n lled galed. Y Meibion yn y morfa yn carrio brwyn.

22/7/1820 ■ y Meibion yn hel Tô at ac yn toi Dâs y morfa

1/8/1820 ■ Harry Edward Hendrasela yma yn gofyn a gai hel To yn y Morfa ac yn cael cennad i wneud

23/3/1830 ■ Humphra'r big yma'n prynu brwyn am hanner Coron

13/9/1820 ■ Y Meibion yn carrio Brwyn o'r Morfa at yr helmi Yd yn eu trwsio ac yn dechreu eu Toi.

Dyddiadur Owen Edwards, Fron Olau, Penmorfa
(Archifdy Gwynedd, Caernarfon)


Rhaffu a chordeddu

Gwaith tywydd gwlyb yn aml oedd gwneud rhaffau a chyrty (rhaffau rhawn?).

Golygydd

29/9/1820 ■ Diwrnod gwlawog a gwyntog Dryghinllyd iawn ar hyd y Dydd. Y Meibion yn gwneud rhaffa at doi'r Mawn a rhaffio'r yd.

Teclyn gwneud rhaffau yn eiddo i Steve Roddick



Gwneud rhaffau bach (gwair)
ym Mhen draw Llŷn, tua 1980 Huw Erith

18/5/1820 ■ Will yn chwalu rhawn

28/6/1821 ■ Wm. Williams a Sionun yn gwneud rhaffau rhawn

16/5/1823 ■ Diwrnod dryghinllyd ac yn bwrw gwlaw trwm ar hyd y dydd Y Meibion yn ...chwalu rhawn bwrw'n drwm iawn ar hyd y dydd.

14/6/1824 ■ ...bwrw'n drwm iawn ar hyd y dydd. Y Meibion yn y Sgubor yn chwalu rhawn hyd hanner dydd

17/12/1824 ■ Fi wedi bod efo Dic yn y Beudy ucha yn parattoi lle i rwymo

20/6/1825 ■ Sion Prisiart Aberglaslyn yma'n gwneud wyth hanner rhaff rhawn.

Nid cyrt oedd yr unig bwrpas rhawn:

8/2/1826 ■ Bachgen Ellis Evan Tyn y ffridd yn dwad a Gogor rhawn yma.

Llawer mwy am raffu a chordeddu gan Laura Roberts, Ystum, Rhoshirwaun yn [rhifyn 160 o Fwletin Llên Natur](#)



Cyrt (neu rhaffau rhawn?)

Cordeddu a rhaffau rhawn (i glymu'r byrnau wedi eu torri gan y gyllell wair?)

Pibyddion ①

pibydd y dorlan

Actitis hypoleucos




1

B

pibydd gwyrdd

Tringa ochropus



2

B

pibydd y graean

Tringa glareola



3

B

pibydd coesgoch

Tringa totanus



4

G

pibydd coesgoch mannog

Tringa erythropus



5

pibydd coeswyrdd

Tringa nebularia



6

Lluniau oedolion gwryw

Wikimedia Commons

Maint y corff:

M Mawr G Canolig B Bach

! Tebyg, hawdd cymysgu rhywogaethau

Wadolig Llawen